COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN:** PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Gofyniad Cyllidebol, Gofynion Praesept a'r Dreth Gyngor

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, disgwylir i'r Comisiynydd nodi'r penderfyniadau mewn perthynas â'r Gofyniad Cyllidebol, y gofynion praesept a'r Dreth Gyngor yn unol ag Adrannau 43, 44, 47 a 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r Comisiynydd wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Panel Heddlu a Throseddu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddis. Nid yw'r praesept a gyhoeddwyd wedi newid o'r hyn a gynigwyd yn wreiddiol i'r Panel Heddlu a Throseddu.

Cefnogir y penderfyniadau atodedig gan:

- adroddiad y Comisiynydd i gyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 27 Ionawr 2017;
- Adroddiad y Panel Heddlu a Throseddu ar y praesept yn dilyn y cyfarfod hwnnw; ac
- adroddiad y Prif Swyddog Ariannol o dan adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Derbyniwyd setliad terfynol yr heddlu ar 1 Chwefror 2017, ac nid oedd wedi newid o'r setliad a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gymeradwyo'r cyfrifon a'r penderfyniadau Gofyniad Treth Gyngor a Chyllid statudol sy'n atodedig.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad amgaeedig a'r cyfrifon a'r penderfyniadau statudol ynddo.

**Llofnod:** **Dyddiad: 30/03/2017**

**Cyfrifiad Gofyniad Treth Gyngor – 6.9% Council Tax rise at Band D**

## 1. Gofyniad Cyllidebol 2017/18

£96.616 miliwn yw Gofyniad Cyllidebol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn. Cyfrifwyd hyn fel a ganlyn yn unol ag adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

| | £m | £m |
|---|---|---|
| Gwariant Refeniw Gros | | 111.212 |
| Cyfraniad o Falansau | | -1.952 |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | | **109.260** |
| Incwm Arall | | -12.644 |
| **GWARIANT NET** | | **96.616** |
| Cyfraniad i Falansau | | 0 |
| **Gofyniad Cyllideb Net** | | **96.616** |
| Cyllideb net i'w bodloni gan: | | |
| Grant yr Heddlu | 36.443 | |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | 8.935 | |
| Grant Cymorth Refeniw | 3.935 | |
| **BALANS I'W FODLONI GAN Y DRETH GYNGOR** | | **47.303** |

| **Nodyn** | **£m** |
|---|---|
| Gofyniad Treth Gyngor Cenedlaethol (gan LC) | 22.281 |
| Disgwylir balansau refeniw ar: | 4.500 |

## 2. Sylfaen Treth Gyngor ar gyfer 2017/18 ar gyfer eiddo Band D

| **Ardal Awdurdod Unedol** | **Nifer Cyfwerth o Eiddo Band D** |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 71,599 |
| Ceredigion | 31,894 |
| Sir Benfro | 55,920 |
| Powys | 61,764 |
| **Cyfanswm** | **221,177** |

## 3. Balansau Cronfa Gasglu

Ni fydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn rhannu mewn diffygion a gwargedion blynyddol ar y Gronfa Gasglu.

## 4. Cyfrif y Dreth Gyngor

Cyfrif y Fformiwla Treth Gyngor = $\frac{A - (B1+B2+B3)}{C}$

Allwedd i'r uchod: A = Gofyniad Cyllidebol
B1 = Grant Cymorth Refeniw
B2 = Trethi Annomestig Cenedlaethol
B3 = Grant yr Heddlu
C = Cyfanswm Sylfaen Treth Gyngor

$$\frac{96{,}615{,}770 - (3{,}935{,}213 + 8{,}934{,}506 + 36{,}442{,}926)}{221{,}177}$$

£

**GAN HYNNY, y swm treth sylfaenol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yw £213.87 (wedi'i rowndio i'r geiniog agosaf)**

## 5. Treth Gyngor Fesul Band Eiddo

| Band Eiddo | Pwysiad | Treth Gyngor |
|---|---|---|
| | | £ |
| A | 6/9fed | 142.58 |
| B | 7/9fed | 166.34 |
| C | 8/9fed | 190.11 |
| D | 9/9fed | 213.87 |
| E | 11/9fed | 261.40 |
| F | 13/9fed | 308.92 |
| G | 15/9fed | 356.45 |
| H | 18/9fed | 427.74 |
| I | 21/9fed | 499.03 |

D.S. Cyfrif Treth = Pwysiad x Gwerth Band D h.y. Band D = £213.87

## 6. Praesept 2015/16 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

| Ardal Awdurdod Unedol | Sylfaen Dreth | Treth Fesul Eiddo Band D | Praesept sy'n Ddyledus |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Sir Gaerfyrddin | 71,599 | 213.87 | 15,312,878 |
| Ceredigion | 31,894 | 213.87 | 6,821,170 |
| Sir Benfro | 55,920 | 213.87 | 11,959,610 |
| Powys | 61,764 | 213.87 | 13,209,467 |
| **Cyfanswm** | **221,177** | | **47,303,125** |

**Atodiad A**

## Adroddiad Praesept 2017/18

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Praesept a Chyllideb 2017/18**

**Ionawr 2017**

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ Error! Bookmark not defined.
1. Cyflwyniad ........ Error! Bookmark not defined.
2. Ariannu – Setliad Dros Dro 2017/18 ........ 5
3. Praesept yr Heddlu 2017/18 ........ 7
4. Cyllideb Ddrafft 2017/18 ........ 10
5. Cronfeydd Wrth Gefn ........ 13
6. Cyfalaf ........ 15
Atodiad A – Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol ........ 16
Atodiad B – Cynllun Ariannol Tymor Canolig ........ 27

## Crynodeb Gweithredol

Un o fy mhrif gyfrifoldebau fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, rwy'n ystyried nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys gofyniad y Prif Gwnstabl o ran adnoddau yn y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn a chynlluniau ar gyfer buddsoddi ac adeiladwaith yn y dyfodol. Rwyf hefyd wedi ystyried effaith bosibl yr adolygiad cyfredol o ariannu canolog sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Gartref, ac rydw i wedi cynnal ymgynghoriad ac wedi gwahodd adborth gan breswylwyr Dyfed-Powys.

Mae'r setliad drafft o £49.313 a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2016 wedi arwain at ostyngiad yng nghyllid craidd y llywodraeth o 1.4% mewn termau ariannol. Mae hyn yn cyfateb i £699,000 yn llai ar gyfer Dyfed-Powys yn 2017/18 o'i gymharu â 2016/17.

Yn 2015/16 gostyngwyd y praesept treth gyngor o 5%, ac yna fe'i rhewyd ar yr un lefel yn 2016/17. Arweiniodd hyn at braesept treth gyngor £200.07 ar gyfer eiddo band D cyfartalog yn Nyfed-Powys. Roedd hyn yn cymharu â £207.85 yn Ne Cymru, £220.06 yng Ngwent a £240.12 yng Ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, £32.862 miliwn[1] yw'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Rhennir hyn rhwng cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfa wrth gefn gyffredinol, a disgwylir y byddant yn gostwng i £8.330 miliwn erbyn 2020/21. Yn 2016/17, rydyn ni'n disgwyl gwario'n agos at y gyllideb.

Felly, rwy'n cyflwyno praesept heddlu o £47.303m i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys graffu arno. Gan hynny, bydd ariannu canolog a lleol gyda'i gilydd yn dod i £96.616 miliwn (cynnydd o 3.5% ar lefelau ariannu yn 2016/17).

Bydd eiddo cyfartalog band D yn talu £213.87. Bydd y dreth band D hon ar lefel sydd 6.9% yn uwch na lefel 2016/17 ac 1.55% yn uwch na lefel 2014/15.

Rwy'n debygol o gael gwybod am y setliad terfynol ar gyfer 2017/18 ym mis Chwefror 2017. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Panel am unrhyw newidiadau i'r setliad dros dro ar ôl eu derbyn.

[1] Ar 31 Mawrth 2016

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gosod amserlen dynn o 1 Chwefror 2017 imi gyflwyno fy nghynnig praesept cychwynnol ar gyfer 2017/18 i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro ar 15 Rhagfyr 2016. Cynhaliwyd Uwch-gynhadledd Galw a Chyllid ar 7 Rhagfyr 2016. Yno, trafodwyd fy nghynlluniau ar gyfer 2017/18.

1.2 Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh), rwyf wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl (PG) ac wedi cael trafodaeth fanwl am ei gynlluniau ar gyfer lefelau staffio, gwasanaethau heddlu ac anghenion buddsoddi yn y dyfodol wrth gytuno ar gyllideb yr Heddlu ar gyfer 2017/18 ac er mwyn pennu'r praesept heddlu.

1.3 Rhoddodd yr Adolygiad o Wariant yn 2015 newydd i'w groesawu, sef y byddai'r cyllid cyffredinol ar gyfer yr heddlu ond yn dioddef toriad o 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Ni soniwyd am gyllid ar gyfer y gwasanaeth heddlu yn natganiad yr hydref, fodd bynnag, disgwylir y bydd fformiwla ariannu newydd yn cael ei chyflwyno o 2018/19. Gan hynny, mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynglŷn â'r effaith debygol ailddosbarthu cyllid yr heddlu rhwng heddluoedd ar Ddyfed-Powys. Gwelodd yr adolygiad diwethaf o'r fformiwla ariannu (sydd heb ei weithredu) Dyfed-Powys yn colli bron £8 miliwn o gyllid. Mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu fformiwla newydd, a disgwylir y bydd y Gweinidog ar gyfer Plismona a'r Gwasanaeth Tân yn dechrau ymarfer ymgynghori ar y fformiwla newydd bosibl ym mis Chwefror 2017.

1.4 Gan hynny, rwyf wedi penderfynu gweithredu'n ddoeth ac adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n parhau mewn perthynas â setliadau ariannol yn y dyfodol ar gyfer plismona yn ardal Dyfed-Powys a chyflwyno cynllun ariannol tymor canolig sy'n gweld Dyfed-Powys yn colli £5 miliwn o ariannu canolog dros 2018/19 a 2019/20.

1.5 Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth y mae'r Prif Gwnstabl yn bwriadu eu gweithredu – mae nifer ohonynt mewn ymateb uniongyrchol i argymhellion diweddar a wnaed gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM).

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn anelu i roi'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer craffu ar fy mhenderfyniad praesept cychwynnol a'r sefyllfa ariannol

gynhenid ar gyfer 2017/18 i Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Rwyf eisoes wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r Prif Gwnstabl ynghylch hyn.

1.7 Mae Atodiad A yn cynnwys adroddiad Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gronfeydd wrth gefn a risg gyllidebol.

1.8 Mae Atodiad B yn darparu'r cynllun ariannol tymor canolig hyd at 2020/21.

## 2. Ariannu – Setliad Dros Dro ar gyfer 2017/18

2.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd setliad ariannol dros dro yr heddlu ar gyfer 2017/18 mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan y Gweinidog ar gyfer Plismona a'r Gwasanaeth Tân, y Gwir Anrhydeddus Brandon Lewis AS. Dilynwyd hyn ar yr un diwrnod gan setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru.

2.2 Cyhoeddodd datganiad y Gweinidog:

- Setliad blwyddyn yn unig;
- Gostyngiad cyfradd unffurf o 1.4% mewn termau ariannol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru a Lloegr;
- Haenau uchaf/ailddosbarthiadau o £812 miliwn (42% yn uwch na 2016/17) o gyfanswm cronfa'r heddlu;
- Cynnydd yng ngwerth y Gronfa Drawsnewid o £131.4 miliwn yn 2016/17 (gan gynnwys y Gronfa Arloesedd) i £175 miliwn.

2.3 Cronfa Arloesedd – Mewn misoedd diweddar, mae'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Cartref wedi bod yn trafod cryn dipyn am fanteision trawsnewid gwasanaethau a chydweithio, felly nid yw'n synod gweld tyfiant yng ngwerth y Gronfa Arloesedd (ni ddylid cymysgu hyn â'r Gronfa Trawsnewid Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod).

2.4 Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (RhGB) – Yn gynwysedig o fewn yr haenau uchaf y mae cyllid ar gyfer "costau craidd" y RhGB newydd. Mae'r llywodraeth yn disgwyl gwario £1 biliwn ar RhGB, sy'n disodli Airwave. Byddwn ni'n parhau i dalu am Airwave hyd nes y bydd y trawsnewid i RhGB wedi digwydd. Yn ystod y trawsnewid, ac unwaith y bydd yn ei le, bydd angen i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu dalu costau RhGB lleol, gan gynnwys costau data a chysylltu, dyfeisiau a gosod yn ogystal â diweddariadau ystafell reoli, a gefnogir gan y grantiau penodol a ailbennir drwy'r haen uchaf "costau craidd".

2.5 Mae'r setliad wedi arwain at ostyngiad mewn grant craidd o £50.012 miliwn yn 2016/17 i £49.313 miliwn yn 2017/18 mewn termau ariannol.

2.6 Yn gyffredinol, mae Grantiau Cyfalaf yr Heddlu wedi gostwng o £82 miliwn yn 2016/17 i £77.2 miliwn yn 2017/18. Mae grantiau cyfalaf nad ydynt yn ymwneud â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu wedi gostwng o 41% ers 2015/16. Hefyd, mae £1 miliwn a £18.1 miliwn pellach wedi'u clustnodi ar gyfer Cyfalaf Grant Arbennig a Gwasanaethau Byw'r Heddlu, yn ôl eu trefn. Gan ystyried hyn, bu cwymp o 86.7% yn genedlaethol mewn grantiau cyfalaf ers 2015/16. Mae dyraniad Dyfed-Powys wedi gostwng yn y setliad dros dro o £0.374 miliwn yn 2016/17 i £0.318m yn 2017/18.


2.7 Daw cyllid ar gyfer dioddefwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn 2016/17, derbyniom gyllid o £611,000 a'r setliad dros dro ar gyfer 2017/18 yw £605,000.

2.8 Cronfa Trawsnewid Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched – Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y llywodraeth raglen o ddiwygio a gefnogwyd gan gynnydd mewn cyllid o £80 miliwn. Y bwriad yw sicrhau bod pob dioddefydd yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd angen arnynt, ynghyd â dwyn mwy o droseddwyr i gyfiawnder. Mae'r cyllid gwerth £80 miliwn wedi'i addo hyd at 2020. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r arian hwnnw'n mynd i wasanaethau eraill megis llinellau cymorth cenedlaethol, canolfan cymorth trais a llochesi. Mae'r Gronfa Trawsnewid Gwasanaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched ar gael i'r Heddlu wneud cynnig amdano, ac mae'r gronfa, sydd werth £15 miliwn o 2017, yn rhedeg tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20.

## 3. Praesept yr Heddlu ar gyfer 2017/18

3.1 Ar 7 Tachwedd 2016, cynhaliais Uwch-gynhadledd Galw a Chyllid a gwahoddais aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru i fod yno. Diben y digwyddiad oedd galluogi'r Heddlu i gyflwyno crynodeb o'r amgylchedd gweithredol maen nhw'n gweithio o fewn ac effaith hyn ar eu lefelau galw, ac felly'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer 2017/18 a thu hwnt. Yna, roedd cyfle i'm staff a phawb a oedd yn bresennol i graffu ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Cafwyd trafodaethau diddorol ar heriau yn y dyfodol, arbedion a gynlluniwyd a lefelau cronfeydd wrth gefn, ac rwyf wedi ystyried yr amrywiol safbwyntiau cyn penderfynu ar y praesept ar gyfer 2017/18.

3.2 Ystyriais lefelau treth gyngor heddluoedd ledled Cymru:




Dyfed-Powys Police = Heddlu Dyfed-Powys
Gwent Police = Heddlu Gwent
North Wales Police = Heddlu Gogledd Cymru
South Wales Police = Heddlu De Cymru

3.3 Rydw i hefyd wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y lefel praesept y byddaf yn gosod ar gyfer 2017/18. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Tachwedd a 14 Rhagfyr 2016 a derbyniwyd 265 o ymatebion.

3.4 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf "Ar hyn o bryd, cyllideb Heddlu Dyfed-Powys yw £93.342 miliwn gyda £43.33 miliwn o hyn yn dod o'r praesept heddlu. Mewn perthynas ag elfen praesept heddlu cyllid blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, yn eich barn chi, a yw Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn digon o arian ai peidio?" Nododd 69% o ymatebwyr nad oedd Heddlu Dyfed-Powys yn derbyn digon o arian.

3.5 Mewn ymateb i'r ail gwestiwn, "Gan ystyried elfen praesept heddlu cyllid blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, yn eich barn chi, a yw'ch cartref yn talu gormod o arian, dim digon o arian, neu'r swm cywir ar gyfer yr heddlu?" Dywedodd 51% o ymatebwyr nad oedd digon yn cael ei dalu ar gyfer yr heddlu, gyda 34% yn dweud eu bod nhw'n talu'r swm cywir ar gyfer yr heddlu.

3.6 Mewn ymateb i'r trydydd cwestiwn, "Pe baech chi'n Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, sut fyddech chi'n newid y Praesept Plismona eleni?" Dywedodd 14% y byddent yn cynyddu'r praesept o 10%, dywedodd 25% y byddent yn cynyddu'r praesept o 5%, a dywedodd 16% y byddent yn cynyddu'r praesept o 2%.

3.7 Mewn ymateb i'r pedwerydd cwestiwn, sef y cwestiwn olaf, "Os ddewisoch gynyddu'r praesept yn C3, sut fyddech chi'n hoffi gweld yr arian yn cael ei fuddsoddi?" Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%) eu bod nhw eisiau mwy o blismona rheng flaen. Yr atebion mwyaf poblogaidd wedi hyn oedd gwell technoleg (6%), targedu adnoddau plismona ar anghenion lleol (5%) a theledu cylch cyfyng (5%).

3.8 Mae gan y sefydliad gronfeydd sylweddol wrth gefn, ond mae angen buddsoddi mewn cynlluniau arwyddocaol yn y dyfodol yn yr ystâd, a buddsoddiad pellach mewn technoleg. Mae'r buddsoddiad hwn yn gweld lefel y cronfeydd wrth gefn yn gostwng yn sylweddol dros y tymor canolig.

3.9 Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd perfformiad ariannol ar gyfer 2016/17 ar darged, fodd bynnag, rydw i hefyd wedi ystyried ansicrwydd ariannu canolog ar gyfer yr heddlu yn y dyfodol:

- unwaith eto, mae'r setliad dros dro diweddaraf ar gyfer blwyddyn yn unig;
- mae adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu ar waith ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad hwn yn newid y ffordd y mae cyllid yn cael ei bennu ar draws yr heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Byddai canlyniad yr adolygiad diwethaf (sydd heb ei weithredu) wedi arwain at Ddyfed-Powys yn colli ariannu canolog o £8 miliwn y flwyddyn.


3.10 Serch yr ansicrwydd, mae angen amcangyfrif lefel tebygol ariannu canolog yn y dyfodol ar gyfer dibenion cynllunio. Ar hyn o bryd, adeiladwyd gostyngiad o £5 miliwn i mewn i'r cynllun ariannol tymor canolig o ganlyniad i newid mewn fformiwla, wedi'i wasgaru dros ddwy flynedd. Mae hyn yn ychwanegol at ostyngiad ariannol o 1.4% o'r naill flwyddyn i'r llall o ganlyniad i leihau cyllid yr heddlu.

3.11 Mae modelau pellach sy'n dangos effaith newid mewn fformiwla ariannu o ddim, £3 miliwn ac £8 miliwn hefyd wedi'u creu. Mae pob model hefyd yn cynnwys gostyngiad ariannol gwaelodol o'r naill flwyddyn i'r llall o 1.4% er mwyn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael i'w

bennu ar draws heddluoedd fel y prif grant heddlu, sy'n lleihau. Mae'r Prif Gwnstabl wrthi'n datblygu'r cynlluniau adnoddau sy'n cefnogi pob un o'r modelau hyn.


3.12 Trafodir effaith gostyngiad mor sylweddol ymhellach yn Atodiad B.

3.13 Mae'r graff canlynol yn dangos sut y mae cyfran yr incwm y mae Dyfed-Powys yn derbyn gan ffynonellau canolog o'i gymharu â ffynonellau lleol wedi newid dros amser:




Central Government Funding = Cyllid Llywodraeth Ganolog

3.14 Mae'r graff canlynol yn dangos sut y mae'r praesept treth gyngor wedi newid dros amser yn Nyfed-Powys:




Change in Police element of council tax over time (Band D) = Newid yn elfen yr heddlu o'r dreth gyngor dros amser (Band D)

## 4. Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2017/18

4.1 Canlyniad cyffredinol y setliad dros dro a'r praesept arfaethedig yw cynnydd yng nghyfanswm y cyllid o £3.274 miliwn yn 2017/18 o'i gymharu â 2016/17 fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 1: Cyfanswm y Cyllid ar gyfer 2017/18 (Dros Dro)**

| | 2016/17 | 2017/18 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **£Miliwn** | **£Miliwn** | **£Miliwn** | **%** |
| Grant Craidd yr Heddlu | 28.107 | 27.714 | -0.393 | -1.4 |
| Ychwanegu Rheol 1 a Chyllid Llawr | 9.010 | 8.729 | -0.281 | -3.1 |
| Llywodraeth Cymru | 12.895 | 12.870 | -0.025 | -0.2 |
| **Ariannu Canolog** | **50.012** | **49.313** | **-0.699** | **-1.4** |
| | | | | |
| Sail Treth Gyngor (Band D) | 216,574 | 221,177 | | 2.1 |
| Treth Gyngor ar Fand D (£) | 200.07 | 213.87 | | 6.9 |
| **Praesept** | **43.330** | **47.303** | **3.973** | **9.2** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **93.342** | **96.616** | **3.274** | **3.5** |

4.2 Mae hyn wedi arwain at y gyllideb gytbwys ganlynol yn cael ei pharatoi ar gyfer 2017/18:

**Tabl 2: Cyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2017/18**

| | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|
| | **£Miliwn** | **£Miliwn** |
| Cyflogau SCHTh | 0.642 | 0.695 |
| Costau SCHTh heblaw cyflogau | 0.337 | 0.336 |
| **Cyfanswm SCHTh** | **0.979** | **1.031** |
| Prosiectau Cymunedol ac Ymchwil | - | 0.153 |
| Comisiynu | 0.978 | 0.793 |
| **Cyfanswm ar gyfer SCHTh a Chomisiynu** | **1.957** | **1.977** |
| | | |
| **Cyfanswm yr Heddlu** (net symudiadau cronfeydd wrth gefn) | **91.385** | **94.639** |
| | | |
| **Cyfanswm ar gyfer SCHTh, Comisiynu a'r Heddlu** | **93.342** | **96.616** |
| | | |

4.3 Darperir crynodeb llawn o'r gwariant arfaethedig ar gyfer yr heddlu yn 2017/18 (hyd at 2020/21) yn Atodiad B.

4.4 Ar 12 Ionawr 2017, cawsom wybod y byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid er mwyn cyflawni gwaith comisiynu, yn bennaf mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Cyfanswm yr arian hwn yw £604,715.

4.5 Wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2017/18, gweithredwyd y ffactorau chwyddiannol canlynol i gyllideb 2016/17:

**Tabl 3: Tybiaethau Cyllideb ar gyfer 2017/18 (o'u cymharu â 2016/17)**

| Tybiaethau Cyllideb (%) | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Swyddogion Heddlu | 1% | 1% |
| Staff Heddlu | 1% | 1% |
| Chwyddiant | 1% | 1% |
| Tanwydd Eiddo | 1% | 1% |
| Tanwydd Cerbydau | 1% | 1% |
| Grantiau | 0% | 0% |
| Incwm | 1% | 1% |
| Ariannu Cyfalaf | 0% | 0% |

4.7 Yn ogystal â phwysau chwyddiannol yn 2017/18, roedd angen i'r Heddlu weithredu'r prif fuddsoddiadau canlynol yn 2016/17:

4.8 Mae Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr honiadau o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu riportio, cynnydd yn nifer y troseddwyr rhywiol a euogfarnwyd sy'n cael eu cofrestru, a chynnydd o ran cofnodi digwyddiadau cam-drin domestig. Mae hyn wedi rhoi pwysau ar yr adran Diogelu Pobl Fregus ac o ganlyniad, mae'r Heddlu eisiau cynyddu nifer y ditectif gwnstabliaid o 7 a chyflogi 2 aelod staff arall i ddarparu cymorth gweinyddol i'r adran. Dylai hyn gyflymu ymchwiliadau a chaniatáu i swyddogion fod yn fwy effeithiol o ran diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Cyfanswm cost y buddsoddiad hwn fydd £500,000.

4.9 Ddwy flynedd yn ôl, cychwynnodd yr heddlu raglen uchelgeisiol o ostyngiadau swyddfa gefn a welodd gostyngiad sylweddol yn nifer y staff a oedd yn darparu pob math o swyddogaethau cymorth i'r sefydliad. Dros amser, mae hi wedi dod yn amlwg nad oedd y gostyngiadau hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir. Gan hynny, mae angen mwy o staff (sy'n golygu £500,000) er mwyn cynorthwyo â

chofnodi troseddau, trwyddedu arfau saethu, a darparu goruchwyliaeth a chymorth corfforaethol.

4.10 Mae seiberdroseddu dal yn cyflwyno problemau mawr ar gyfer pob heddlu. Mae'r newidiadau cyflym mewn technoleg, a'r defnydd o ddyfeisiau digidol a seiber gan y cyhoedd a throseddwyr, sy'n cynyddu'n barhaus, yn rhoi mwy o bobl mewn perygl o ddioddef trosedd. Mewn ymateb, mae Dyfed-Powys wedi cyflwyno uned seiberdroseddu benodol, ac mae'n dymuno buddsoddi £300,000 mewn sgiliau archwilio, hyfforddi a dadansoddol ychwanegol er mwyn gwella ei allu ymhellach a chryfhau ei ymagwedd tuag at seiberdroseddu.

4.11 Yn ogystal â'r buddsoddiadau uchod, mae'r gyllideb amlinellol ar gyfer 2017/18 yn cynnwys lleihau costau cylchol blynyddol o £1.2 miliwn o fewn yr heddlu, fel y nodir isod:

**Tabl 4: Crynodeb Lleihau Costau ar gyfer 2017/18**

| | | **Arbedion disgwyliedig 2017/18** |
|---|---|---|
| | | **£'000** |
| Cyflogau Swyddogion Heddlu | Gostyngiadau lwfansau ac adolygiad Winsor | -100 |
| Arbedion Rhaglen Gyfalaf | Ystafelloedd gwesty ar gyfer recriwtiaid | -100 |
| Rhaglen Gwario'n ddoeth | Gostyngiad cymhareb goruchwyliol a chymysgedd gweithlu | -600 |
| Arbedion nad ydynt yn ymwneud â chyflogau | Archwiliadau ffonau symudol a fforensig | -100 |
| Arbedion Caffael Eraill | Rhaglen Caffael Cydweithredol yr Heddlu / GCC / Rhanbarthol | -300 |
| **Cyfanswm yr arbedion a nodwyd** | | **-1,200** |

## 5. Cronfeydd Wrth Gefn

5.1 Dangosir y sefyllfa agor a chau ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn 2016/17 yn y tabl isod.

**Tabl 5: Balansau Cronfeydd Wrth gefn yn 2016/17**

| | Balans ar 1 Ebrill 2016 | Symudiad Net Mewn Blwyddyn | Balans ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Amcangyfrif |
| | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn |
| Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd | 9.174 | -2.377 | 6.797 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 19.188 | -4.551 | 14.637 |
| Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn | 4.500 | 0.000 | 4.500 |
| **Cyfanswm** | **32.862** | **-6.928** | **25.934** |

5.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y ffordd y mae'n cynlluniau'n disgwyl gwario cronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd i ddod.

**Tabl 6: Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn**

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn** | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn |
| Cyfraniad i'r gyllideb refeniw | 1.502 | 0.631 | 0 | 0 | 2.133 |
| Arall | 0.450 | 0.459 | 0.468 | 0 | 1.377 |
| **Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | **1.952** | **1.090** | **0.468** | **0** | **3.510** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn** | **7.036** | **5.058** | **2.000** | **0** | **14.094** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y defnydd o gronfeydd wrth gefn** | **8.988** | **6.148** | **2.468** | **0** | **17.604** |
| | | | | | |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **16.946** | **10.798** | **8.330** | **8.330** | |

5.3 Mae'r cyfraniad i'r llinell cyllideb refeniw yn y tabl uchod yn ymddangos o ganlyniad i benderfyniad y CHTh blaenorol i leihau'r praesept treth gyngor ar gyfer 2015/16 o 5% a defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu elfen o'r cyllidebau refeniw ar gyfer 2015/16 i 2018/19.

5.4 Ar ddiwedd 2020/21, disgwylir i'r gronfa gyffredinol aros ar £4.5 miliwn gyda chyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn dod i £8.330 miliwn.

## 6. Cyfalaf

6.1 Mae asedau sy'n cael eu cynnal a'u rheoli'n dda'n chwarae rôl hollbwysig o ran cyflwyno gwasanaethau plismona effeithiol. Gan hynny, mae'n gwneud synnwyr cynllunio sut y bydd yr asedau hyn yn cael eu cynnal a'u rheoli. Dangosir y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 isod:

**Tabl 7: Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

| Rhaglen Gyfalaf | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn |
| Tir ac Adeiladau | 5.791 | 5.193 | 2.875 | 0.575 | 14.434 |
| Cerbydau (gan gynnwys llong) | 0.972 | 1.044 | 1.037 | 1.170 | 4.223 |
| TG a gwario strategol arall | 2.459 | 3.462 | 2.781 | 2.448 | 11.150 |
| **Gwariant Cyfalaf** | **9.222** | **9.699** | **6.693** | **4.193** | **29.807** |
| | | | | | |
| Cyllid Grant | 0.318 | 0.318 | 0.318 | 0.318 | 1.272 |
| Benthyca | 0 | 3.499 | 3.875 | 3.575 | 10.950 |
| Derbynebau Cyfalaf | 1.500 | 0.500 | 0.200 | 0 | 2.200 |
| Credyd Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 0.068 | 0.023 | 0 | 0 | 0.091 |
| Cyfraniad o Gyfrif Refeniw | 0.300 | 0.300 | 0.300 | 0.300 | 1.200 |
| Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn | 7.036 | 5.059 | 2.000 | 0 | 14.094 |
| **Ariannu Cyfalaf** | **9.222** | **9.699** | **6.693** | **4.193** | **29.807** |

## Atodiad A – Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol

### 1. Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn

1.1 Yn unol â'r "Cod Ymarfer Rheoli Ariannol", (CYRhA), mae'r CHTh wedi ystyried rolau cronfeydd wrth gefn wrth grynhoi'r cynllun ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Mae'r CHTh yn gyfrifol am sicrhau digonolrwydd cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn fel bod modd bodloni pwysau annisgwyl a arweinir gan alw ar y gyllideb heb unrhyw effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol.

1.2 Yn ôl y CYRhA, mae'n ofynnol i'r CHTh sefydlu polisi ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gallai'r Prif Gwnstabl eu defnyddio) mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl (PG). Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi penderfyniadau'r CHTh ar gronfeydd wrth gefn fel bod modd cyfathrebu'r rhain yn glir i drethdalwyr lleol, gan hyrwyddo atebolrwydd.

1.3 O fewn y polisi cronfeydd wrth gefn presennol a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, mae'r Prif Swyddog Ariannol yn atebol ar gyfer:

- Sicrhau bod cyngor yn cael ei roi ar lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arfer da;
- Adrodd ar yr adeg y mae'r gyllideb yn cael ei hystyried a'r praesept yn cael ei osod ar gadernid yr amcangyfrifon cyllideb a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn, fel sy'n ofynnol yn ôl a25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.

1.4 Hefyd, mae amrediad o amddiffyniadau mewn grym sy'n milwrio yn erbyn y CHTh yn gor-ymrwymo'n ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y gofyniad o ran cyllideb gytbwys;
- Pwerau Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 prif swyddogion ariannol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Prif Swyddog Ariannol adrodd i'r CHTh os oes gwariant anghyfreithlon, neu wariant anghyfreithlon posibl, neu gyllideb anghytbwys; a
- Cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu ac adrodd ar y sefyllfa ariannol sy'n cynnwys adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn gan ystyried eu gwybodaeth o berfformiad y sefydliadau dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb archwilwyr yw pennu lefel isaf neu lefel optimwm cronfeydd wrth gefn sefydliadau unigol.

## 2. Datganiad ar Gronfeydd Wrth Gefn

### Lefel y gronfa gyffredinol wrth gefn ac unrhyw symudiadau ar y gronfa

2.1 Mae deddfwriaeth a chanllawiau eraill yn mynnu bod cronfa gyffredinol wrth gefn yn cael ei chynnal. Er nad yw CIPFA'n nodi lefel isaf neu lefel optimwm cronfa wrth gefn, ei ganllaw cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli *"adnoddau a roddwyd naill ochr ar gyfer dibenion megis cynlluniau wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian."*

2.2 Mae "Nodyn Canllaw ar Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol" CIPFA yn nodi bod disgwyl i Gronfa Wrth Gefn weithredu fel *"balans gweithiol ar gyfer helpu i glustogi effaith llifoedd arian anghyson ac osgoi benthyca dros dro diangen - mae hyn yn ffurfio rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol."* Hefyd, mae angen Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn i weithred fel *"cynllun wrth gefn ar gyfer helpu i glustogi effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau - mae hyn yn ffurfio rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol."*

2.3 Mae cynnal Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer Awdurdodau Lleol i *"ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd angen ar gyfer bodloni gwariant amcangyfrifol yn y dyfodol wrth gyfrifo'r gofyniad o ran cyllideb."*

2.4 Yn hanesyddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi argymell bod y gronfa gyffredinol wrth gefn yn cael ei gosod ar 2.5% o'r gyllideb gwariant refeniw net o leiaf. Mae polisi CHTh ar gronfeydd wrth gefn yn nodi na ddylai'r gronfa gyffredinol wrth gefn fod yn fwy na 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net. Mae polisi CHTh ar gronfeydd Wrth Gefn hefyd yn mynnu asesiad risg wrth bennu lefelau cronfeydd wrth gefn.

2.5 Ar hyn o bryd, mae'r gronfa gyffredinol wrth gefn yn £4.500 miliwn sy'n cyfateb i 4.7% o gyllideb refeniw net 2017/18, ac sydd felly o fewn y paramedrau a osodwyd ym mholisi cronfeydd wrth gefn CHTh. Mae'r tri ffactor canlynol wedi'u hystyried wrth bennu lefel priodol cronfa wrth gefn:

### A. Sefyllfa ariannol gyffredinol a digonolrwydd rheolaeth ariannol

2.6 Wrth osod lefel y gronfa gyffredinol wrth gefn, mae'n bwysig cofio sefyllfa ariannol gyffredinol Heddlu Dyfed-Powys a digonolrwydd rheolaethau ariannol sy'n cael eu gweithredu. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol gyffredinol gan y CHTh fel rhan o'r broses gyllideb, ac er ei bod yn ddiogel, mae'n cael ei heffeithio gan fygythiad gostyngiadau o ran arian gan y llywodraeth yn y dyfodol, a rhaid cadw hyn mewn cof.

2.9 Mae'n bwysig cofio cyd-destun y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) hefyd fel bod y CHTh yn parhau i gydymffurfio a "Nodyn Canllaw ar Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol" CIPFA sy'n awgrymu y *"dylid rhoi cyngor ar ddigonolrwydd cronfeydd wrth gefn yn ystod oes y cynllun ariannol tymor canolig".*

**B. Wynebu risgiau ac asesu risgiau**

2.8 Rhaid ystyried ffurfio lefelau cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun risg os ydyn ni am gydymffurfio â chanllawiau CIPFA sy'n nodi'r canlynol: *"er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd wrth gefn sydd heb eu pennu...rhaid ystyried risgiau ariannol, gweithredol a strategol sy'n wynebu'r awdurdod."*

2.9 Er na fydd wynebu risg a lleihau'r risg hwnnw o reidrwydd yn gyrru cynnydd materol mewn gwario, bydd yn dylanwadu ar lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn o'r naill flwyddyn i'r llall.

2.10 Mae pedwar risg allweddol yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn awr ac yn y dyfodol, ac fe'u hamlinellir isod.

- Ansefydlogrwydd economaidd - oherwydd amodau economaidd sy'n gwaethygu, a gostyngiadau amser real yn y lefelau praesept a grantiau'r llywodraeth, y perygl y bydd y cynnydd o ran gofynion am adnoddau'n effeithio'n sylweddol ar adnoddau ariannol sydd eisoes yn cael eu hestyn. Bydd hyn yn arwain at gyfyngiad o ran gweithgarwch gweithredol a datblygiadau dros y pedair blynedd nesaf a thu hwnt, er enghraifft, atal y gallu i gynnig y lefel o blismona cymunedol y mae'r cyhoedd yn disgwyl ond bai bod defnyddio mwy o arian o gronfeydd wrth gefn yn cael ei awdurdodi;
- Capio – mae cadw'r dreth gyngor dan reolaeth dal yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth;
- Risgiau Allanol - mae risgiau allanol megis marchnadoedd ariannol rhyngwladol wedi'u hystyried wrth osod cronfeydd wrth gefn, yn arbennig yng ngoleuni'r gostyngiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr i 0.25%;
- Digwyddiadau gweithredol mawr – ystyriwyd tebygolrwydd ac effaith digwyddiad mawr a allai ddigwydd o fewn yr ardal Heddlu wrth bennu lefel cronfeydd wrth gefn briodol.

**C. Barn y Cyhoedd**

2.11 Mae derbyniad y cyhoedd o'r praesept yn dibynnu'n rhannol ar y ddealltwriaeth fod y praesept yn cael ei wario ar blismona, ac mai dim ond swm rhesymol a doeth o unrhyw or-ariannu sy'n cael ei gadw fel cronfa gyffredinol wrth gefn. I'r gwrthwyneb, pan mae gwariant annisgwyl yn codi, mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl y

byddai gan y CHTh ddigon o adnoddau i ofalu am y gost heb orfod gorwario.

**Digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ac amcangyfrif o'r darpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a strategaeth ariannol tymor canolig CHTh a'r PG**

2.12 Yn seiliedig ar yr uchod, awgrymir y dylid cynnal lefel y gronfa gyffredinol wrth gefn ar £4.5 miliwn sy'n cynrychioli 4.7% o'r gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2017/18. Awgrymir y dylid cynnal y lefel hon o ystyried effaith bosibl newid fformiwla a phwysau ariannol arall mewn blynyddoedd i ddod.

**Adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gan gynnwys amcangyfrifon o'r balansau diwedd flwyddyn**

2.13 Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu cadw fel ffordd o adeiladu cyllid er mwyn bodloni gofynion sy'n hysbys neu ofynion a ragamcanir. Mae'r prif gronfeydd refeniw wrth gefn a glustnodwyd wedi'u hadolygu gan y CHTh fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2017/18.

2.14 Ar ddechrau 2016/17, daeth cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gyfanswm o £9.174 miliwn, a disgwylir mai £6.797 miliwn fydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans diwedd flwyddyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ôl i'r CHTh ddefnyddio £2.288 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn fel cyfraniad tuag at y gyllideb refeniw a gynlluniwyd yn ystod y broses o sefydlu'r gyllideb a'r praesept ar gyfer 2016/17.

2.15 Roedd cronfeydd wrth gefn cyfalaf (gan gynnwys grantiau cyfalaf na chafodd eu gweithredu) yn sefyll ar £19.188 miliwn ar ddechrau 2016/17.

2.16 Mae ein rhaglen gyfalaf ddrafft gyfredol angen cyfanswm cyllid o £29.807 miliwn dros bedair blynedd, gyda £9.222 miliwn yn cael ei wario yn 2017/18. Er mwyn i'r rhaglen gyfalaf gyfredol gael ei hariannu'n llawn dros y pedair blynedd nesaf, bydd y gronfa gyfalaf wrth gefn gyfan wedi'i gwacau erbyn 2019/20. Yn ogystal, rhagwelir y bydd angen benthyca £10.950 miliwn yn allanol dros yr un cyfnod. Bydd y rhan fwyaf o'r benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y gost ar gyfer y prosiect cyfalaf hwn oddeutu £8 miliwn.

**Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol CHTh**

## 3. Risg Cyllidebol

3.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn mynnu bod y Prif Swyddog Ariannol yn adrodd i'r CHTh, ar yr adeg y mae'r gyllideb yn cael ei gosod, ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai olygu bod angen treulio mwy o amser ar y gwasanaeth nag a gynlluniwyd. Caniateir ar gyfer y risgiau hyn drwy:

- wneud lwfans doeth yn yr amcangyfrifon; yn ogystal â
- sicrhau bod cronfeydd wrth gefn digonol i dynnu arnynt os yw'r amcangyfrifon gwasanaeth yn annigonol.

3.2 Mae'n bwysig bod y CHTh yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod y risg cyllidebol wedi'i leihau pan mae'r gyllideb yn cael ei gosod. Rhaid i'r CHTh ystyried lefel y risg cyllidebol yn ffurfiol, wedi'i hysbysu gan gyngor a barn ei Brif Swyddog Ariannol.

3.3 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu'r risgiau mesuradwy a nodwyd; fodd bynnag, ni fu'n bosibl cynnwys y risgiau canlynol:

- Diwygiadau i'r hysbysiad grant llywodraeth terfynol o'r ffigurau dros dro a gynhwysir yn yr adroddiad hwn neu ar gyfer blynyddoedd i ddod;
- Arbedion cost ychwanegol llawn o ffigurau cyllideb diwygiedig ar gyfer y dyfodol - bydd mwy o waith yn digwydd mewn perthynas â hyn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen;
- Effaith adolygiadau cynllun pensiwn ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwr.

3.4 Er mwyn galluogi'r CHTh i ddod i'w benderfyniad, mae ei Brif Swyddog Ariannol wedi cynnal asesiad risg o eitemau refeniw materol a chyllidebau cyfalaf a gynhwysir yn y tudalennau nesaf. Mae'r dadansoddiad risg wedi'i gynnal ar yr amrywiol penawdau cyllideb ac fe'u haseswyd yn seiliedig ar % y gyllideb refeniw net a ffactorau sy'n hysbys a allai ddylanwadau ar lefelau gwariant gwirioneddol neu incwm.

**Tabl 8: Asesiad Risg o Gyllidebau Materol**

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Swyddogion Heddlu | 55% | Uchel | Mae nifer y swyddogion mewn swydd yn cynyddu uwchlaw'r sefydliad gronnol a gymeradwywyd.<br><br>Goramser a godwyd ar ymchwiliadau/ymgyrchoedd/ digwyddiadau mawr nad yw'n cael ei reoli a'i fonitro, ac felly'n uwch na'r gyllideb.<br><br>Gall lwfansau a delir ar gyfer taliadau bonws ayyb fod yn uwch na'r gyllideb.<br><br>0.5% ychwanegol i'w dalu ar YG ar gyfer Treth Prentisiaid. Efallai na fydd modd inni ddefnyddio hyn yn yr un modd ag y bydd yn bosibl yn Lloegr. | Mae'r sefydliad yn cael ei fonitro'n barhaus fel rhan o brosesau rheoli cyllidebol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau'n cwrdd yn fisol er mwyn monitro a rheoli'r sefydliad ar sail strategol. Mae Gweithdrefn Monitro Cyllideb mewn grym gyda'r gyllideb yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Prif Swyddogion a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.<br><br>Mae gan AD gynllun recriwtio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn seiliedig ar nifer y swyddogion heddlu sy'n ymddeol, nifer y rhai sy'n gadael a nifer y rhai sy'n trosglwyddo. Mae nifer y swyddogion ar brawf sydd angen wedi'i gynllunio a'i bennu'n unol â hynny.<br><br>Mae cynrychiolaeth cyllid ar grwpiau aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill bellach yn digwydd fel mater o drefn. Mae hyn yn galluogi costau goramser a chostau eraill i gael eu monitro'n agos a'u hadrodd i bob cyfarfod. |

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Staff yr Heddlu (gan gynnwys SCCH) | 27% | Uchel | Mae nifer y staff mewn swydd yn cynyddu uwchlaw'r sefydliad a gyllidir sy'n gymeradwy.<br>Mae prosiectau sydd angen cysylltiad staff y tu allan i oriau gwaith arferol yn cael eu costio 'n gywir ar gyfer costau ychwanegol megis goramser ayyb.<br>0.5% ychwanegol i'w dalu ar YG ar gyfer Treth Prentisiaid. | Mae'r sefydliad yn cael ei fonitro'n barhaus fel rhan o broses rheoli cyllidebol. Mae proses Porth yn cael ei sefydlu er mwyn monitro a rheoli'r sefydliad ar sail strategol. Mae Gweithdrefn Rheoli Cyllideb mewn grym.<br>Bydd staff adnoddau dynol a chyflogres proffesiynol yn gysylltiedig â sefydlu hawliau staff ar gyfer oriau ychwanegol. |
| Pensiynau Swyddogion Heddlu | 12% | Canolig | Mae perygl y bydd cynnydd o ran cyfraniadau yn y dyfodol y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a newidiadau yn y ffordd y mae rhai elfennau, megis taliadau anafiadau, yn cael eu trin. | Mae'n gysylltiedig â'r costau cyflog swyddogion heddlu uchod.<br>Y gallu i ddiwygio proffiliau recriwtio yn ystod y flwyddyn. |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 0.8% | Canolig | Gall y rhain gynyddu uwchlaw'r gyllideb. | Mae cyllidebau hyfforddi wedi'u sefydlu er mwyn adlewyrchu gofynion gweithredol hanfodol. Mae cyllidebau'n cael eu monitro bob mis. |

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Costau Adeiladau | 4% | Canolig | Efallai bydd angen buddsoddi pellach o ran adeiladau yn y dyfodol os ydym am osgoi rhaglen gyfalaf fawr arall i ddwyn adeiladau yn ôl i amgylchedd gwaith diogel a derbyniol ar gyfer swyddogion a staff.<br>Gall amrywiadau mewn prisiau nwy a thrydan barhau wrth i gytundebau gael eu haildrafod. | Ystyrir y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o osod y gyllideb flynyddol.<br>Mae'r adran gaffael yn cynnwys yr adran gyllid mewn trafodaethau ynghylch cytundebau.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn mewn grym, ac fe lynir wrthynt. |
| Costau Trafnidiaeth | 2% | Canolig | Gall cynnydd ym maint y fflyd ddigwydd heb gynnydd digonol mewn costau rhedeg.<br>Gall y bleidlais i adael Ewrop arwain at gynnydd o ran costau tanwydd yn y dyfodol. | Ystyrir y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses o osod y gyllideb flynyddol.<br>Mae'r Grŵp Cerbydau Strategol yn cwrdd er mwyn trafod y fflyd cerbydau – mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid.<br>Mae prisiau tanwydd yn cael eu monitro ac mae eu heffaith yn cael ei asesu'n rheolaidd drwy weithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd mewn grym. |

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau a Gwasanaethau a Chomisiynu | 10% | Canolig | Gall gorchmynion heb bryniant arwain at orwario yn erbyn y gyllideb. | Mae gorchmynion prynu'n cael eu prosesu gyda gwiriad cyllideb gosod ar gyfer eitemau gwerth uwch.<br>Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod caffael nwyddau a gwasanaethau'n cael eu gwneud yn unol â Gweithdrefnau a'r Rheoliadau Ariannol.<br>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn mewn grym ac fe lynir wrthynt.<br>Mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu gan y CHTh yn cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu. |
| Gwasanaethau Wedi'u Contractio a Gwasanaethau Asiantaeth | 2% | Isel | Anfaterol | Anfaterol |
| Ariannu Cyfalaf | 0.5% | Isel | Anfaterol | Anfaterol |

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Grant Penodol | -8% | Uchel | Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.<br>Gall darparwyr grantiau ddod â thaliadau grant i ben heb lawer o rybudd. | Mae cofrestr grantiau'n cofnodi'r holl grantiau sy'n ddyledus.<br>Dylid recriwtio ar gyfer swyddi a ariennir gan grantiau ar sail dros dro ar gyfer hyd y grant.<br>Awdurdodir holl delerau'r grant gan y Prif Swyddog Ariannol.<br>Mae pob ffurflen Diwygio Sefydliad yn cael ei hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.<br>Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y CHTh yn cael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Ariannol. |
| Incwm Arall | -6% | Isel | Anfaterol | |
| Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn | -2% | Canolig | Ni ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu gwariant cylchol.<br>Gellir bodloni pwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb effaith andwyol. | Nid oes gan yr Heddlu Gronfeydd gweithredol wrth gefn ar wahân i gyfleoedd trosglwyddiad cyfyngedig. Mae monitro rheolaidd o'r sefyllfa ariannol yn digwydd drwy Grŵp Prif Swyddogion yr heddlu. |

| Maes Cyllideb | % y costau net | Lefel Risg | Risg a Nodwyd | Ffactor Lliniarol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amh. | Uchel | Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r perygl o wario mwy na'r gyllideb, gor-redeg o ran amser a methu â chyflawni'r amcanion yn yr achos busnes gwreiddiol. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro gan y CHTh. Mae Prif Swyddogion yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn monitro cynnydd o ran prosiectau cyfalaf yng nghyfarfodydd y Grŵp Prif Swyddogion. Mae trefniadau llywodraethu sy'n gofalu am bob prosiect mawr ar gyfer yr heddlu mewn grym. |

**Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol CHTh**

## Atodiad B – Cynllun Ariannol Tymor Canolig

### 1. Ariannu yn y Dyfodol

1.1 Bu ansicrwydd sylweddol ynghylch setliadau ariannol yn y dyfodol ers peth amser. Dywedodd llythyr yr Ysgrifennydd Cartref, a ysgrifennwyd ar ddiwrnod Adolygiad o Wariant 2015, y byddai'r setliad ar gyfer yr heddlu, gan gynnwys ariannu ar gyfer gwrthderfysgaeth, yn cael ei leihau o 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Gan ystyried incwm lleol, bydd y setliad yn diogelu gwariant yr heddlu mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Roedd y newyddion hyn yn well na'r disgwyl oherwydd, cyn hynny, disgwyliwyd y byddai adrannau sydd heb eu diogelu'n gweld gostyngiadau o tua 27% dros dair blynedd.

1.2 Fodd bynnag, nid oedd Adolygiad o Wariant 2015 yn esbonio sut y byddai'r setliad heddlu cyffredinol yn effeithio ar heddluoedd unigol. Darparwyd hyn i gychwyn gan y setliad dros dro a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2015. Cyhoeddodd datganiad Mike Penning ostyngiad cyfradd unffurf mewn ariannu grant o 0.6% mewn termau ariannol ar gyfer pob heddlu yn 2016/17. Fel y disgwyliwyd, roedd y setliad dros dro hwn ar gyfer blwyddyn yn unig.

1.3 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Gweinidog ar gyfer Plismona a'r Gwasanaeth Tân, y Gwir Anrhydeddus Brandon Lewis AS, ostyngiad cyfradd unffurf mewn ariannu grant o 1.4% ar gyfer pob heddlu yn 2017/18. Mae'r datganiad dros dro hwn ychydig yn waeth na'r hyn a gafodd ei ddarogan gan fod cynnydd cyfartalog yn y seiliau treth gyngor wedi'i amcangyfrif gan y Swyddfa Gartref cyn cyfrifo'r gostyngiad canlyniadol mewn cyllid. Mae canlyniad y setliad dros dro hwn wedi arwain at newid yn y tybiaethau a wnaed yn y cynllun tymor canolig. Yn flaenorol, roedd gostyngiadau o'r naill flwyddyn i'r llall o 0.6% wedi'u modelu a'u defnyddio fel y sefyllfa fwyaf tebygol (roedd hyn yn cyfateb â'r gostyngiad ariannol a gafwyd yn 2016/17 o'i gymharu â 2015/16). Fodd bynnag, o ystyried y setliad dros dro ar gyfer 2017/18, bellach, mae gostyngiadau o'r naill flwyddyn i'r llall o 1.4% wedi'u rhagweld fel y newid gwaelodol yng nghronfa'r heddlu. Yn ogystal, mae datblygiadau mewn perthynas â'r adolygiad hirddisgwyliedig o'r fformiwla ariannu wedi'u hystyried.

1.4 Cynhaliwyd dau rownd o ymgynghori ar y fformiwla ariannu yn 2015/16, ond ataliwyd y broses ym mis Tachwedd 2015. Effaith yr adolygiad diwethaf, a oedd heb ei weithredu, oedd colled o ran incwm o £7.9 miliwn ar gyfer Dyfed-Powys. Ddiwedd Medi 2016, daethom yn ymwybodol o fwriad y Swyddfa Gartref i gychwyn adolygiad newydd o'r fformiwla ariannu. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar hyn o bryd. Er nad yw canlyniad y gwaith cyfredol yn hysbys ar hyn o bryd, mae pryder y gallai Heddlu Dyfed-Powys golli cyllid canolog sylweddol. Deellir bod y Gweinidog ar gyfer Plismona a'r Gwasanaeth Tân eisiau gweithredu'r fformiwla newydd yn 2018/19, heb fawr o gyfnod trawsnewid.

1.5 Gyda hyn mewn cof, mae'r cynllun ariannol tymor canolig hefyd yn cynnwys colled o £5 miliwn o ganlyniad i newid fformiwla. Mae'r gostyngiad hwn wedi'i gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd, gan gychwyn yn 2018/19.

1.6 O ystyried yr ansicrwydd o ran ariannu yn y dyfodol ac effaith sylweddol colli cyllid o £5 miliwn, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cydnabod y gall cynnydd o 5% yn y praesept fod yn ofynnol ar gyfer gweddill y cynllun tymor canolig ac mae hyn wedi'i adeiladu i mewn i'r model sylfaenol. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl unwaith y bydd canlyniad yr adolygiad o'r fformiwla ariannu'n hysbys, a gallai effeithio ar dybiaethau praesept a wneir mewn blynyddoedd i ddod.

1.7 Mae'r tymor canolig cyfredol yn dangos y canlynol:

**Tabl 9: Cyfanswm y cyllid ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|---|
| | **£Miliwn** | **£Miliwn** | **£Miliwn** | **£Miliwn** |
| Grantiau Canolog | 49.313 | 46.122 | 42.977 | 42.375 |
| Y Praesept Treth Gyngor | 47.303 | 50.015 | 52.884 | 55.917 |
| **Cyfanswm yr Arian** | **96.616** | **96.137** | **95.861** | **98.292** |
| **Newid yn erbyn y flwyddyn flaenorol (£miliwn)** | **+3.274** | **-0.479** | **-0.276** | **+2.431** |
| **% Newid** | **3.5%** | **-0.5%** | **-0.3%** | **2.5%** |

1.8 Mae'r senario uchod yn arwain ar gynnydd yng nghyfanswm yr arian o £1.676 miliwn (1.7%) dros bedair blynedd.

1.9 Mae'r cyfrifiadau manwl sy'n cefnogi'r ffigurau yn y tabl uchod yn cael eu cynnwys yn y tabl gobennol isod.

## 2. Pwysau Ariannol Nad Oes Modd Osgoi

2.1 Dros y cyfnod, disgwylir y bydd chwyddiant o ran prisiau a chyflogau'n rhoi pwysau esgynnol ar gostau darparu gwasanaethau plismona dros y cyfnod, ac mae'r tybiaethau canlynol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r rhain:

**Tabl 10: Tybiaethau Chwyddiant ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

| Tybiaethau Cyllideb (%) | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|
| Swyddogion Heddlu | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.58% |
| Staff Heddlu | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.58% |
| Chwyddiant | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Tanwydd Eiddo | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Tanwydd Cerbydau | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Grantiau | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Incwm | 1.0% | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Ariannu Cyfalaf | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

2.2 Yn ogystal â'r cynyddiadau hyn mewn costau sylfaenol, mae cynllun arbedion wedi'i ddatblygu a fydd yn cyflwyno arbedion o £3.90 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Nodir yr arbedion hyn yn y tabl isod:

**Tabl 11: Crynodeb Lleihau Costau ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

| Gostyngiadau Cost yr Heddlu | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| ***Crynodeb o Arbedion yn y Dyfodol*** | | | | | |
| Gwasanaeth / Tâl Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | -250 | -250 | 0 | 0 | **-500** |
| Lwfansau'r Heddlu | -102 | -102 | -102 | -102 | **-408** |
| Winsor - Codiadau - Adolygiad o Ddatblygiad Personol | 0 | -50 | -10 | 0 | **-60** |
| Winsor - Gostyngiad Dyletswyddau Cyfyngedig | 0 | -48 | -48 | 0 | **-96** |
| YG - Newidiadau o ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol / Gofal Plant | 0 | -40 | -40 | 0 | **-80** |
| Cost Safle / Llety Myfyrwyr | -75 | -150 | -100 | -50 | **-375** |
| Cynhyrchu Incwm | 0 | -40 | -40 | 0 | **-80** |
| Ymgyrchoedd Traffig a Ariannwyd gan NDORS / VRS | 0 | -50 | -50 | 0 | **-100** |
| ***Cydweithio*** | | | | | |
| Cydweithio mewn perthynas â dalfeydd - Gogledd Cymru | 0 | 0 | -50 | 0 | **-50** |
| Cydweithio Arall (Rhwng Heddluoedd / Fforwm Dinas) | 0 | 0 | -150 | 0 | **-150** |
| Rhaglen Caffael Cydweithredol yr Heddlu / Caffael / Cynaliadwyedd | -150 | -150 | -150 | -150 | **-600** |
| Cydweithio - Lleol / Arall | 0 | -60 | -100 | -150 | **-310** |
| **Galw / Gwario'n Ddoeth** | | | | | |
| Gwario'n Ddoeth - Gweithlu / Sifft / CT | -600 | -100 | -50 | -50 | **-800** |
| Staff Dros Dro yn y Ffigurau Gwaelodlin | 0 | -150 | -150 | 0 | **-300** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr Arbedion a Nodwyd** | **-1,177** | **-1,190** | **-1,040** | **-502** | **-3,909** |

2.3 Ceir crynodeb o effaith gweithredu'r tybiaethau ariannu, pwysau cost esgynnol ac arbedion a nodwyd isod. Uwchlaw a thu hwnt i'r arbedion a nodwyd, mae dal bwlch arbedion o 2018/19 ymlaen:

**Tabl 12: Bwlch arbedion ar gyfer 2017/18 i 2020/21**

| | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|
| | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn | £Miliwn |
| **Costau Net Plismona** | 96.616 | 97.521 | 98.358 | 100.086 |
| **Ariannu Canolog a'r Praesept Lleol** | -96.616 | -96.137 | -95.861 | -98.292 |
| **Cyfanswm y bwlch arbedion (cronnus)** | **0** | **1.383** | **2.497** | **1.794** |

## 3. Canlyniad a Gwaith Pellach Sydd Angen

3.1 Er waethaf ansicrwydd yn y dyfodol o ran ariannu, mae'n ddoeth datblygu cynlluniau ar gyfer bodloni gostyngiad o ran arian yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar hyn o bryd.

3.2 Gan nad yw canlyniad yr adolygiad o'r fformiwla ariannu'n hysbys, mae effaith ariannol dim colled, colled o £3 miliwn a cholled o £8 miliwn sy'n deillio'n uniongyrchol o newid mewn fformiwla hefyd wedi eu modelu. Mae'r colledion hyn yn cael eu modelu ar y cyd â gostyngiad ariannol gwaelodol o'r naill flwyddyn i'r llall o 1.4% yng nghronfa'r heddlu.

3.3 Mae'r achos sylfaenol yn dangos bod angen arbedion pellach o £5.674 miliwn uwchlaw a thu hwnt i'r rhai a nodwyd eisoes ac sydd wedi'u hadeiladu i mewn i'r model er mwyn cyflawni sefyllfa adennill costau ym mhob blwyddyn o gynllun pedair blynedd.

3.4 Yn achos colled fformiwla £8 miliwn, mae'r arbedion hyn sydd heb eu nodi'n tyfu i £9.165 miliwn.

3.5 Yn achos dim effaith o ran ariannu fformiwla, bydd £6.686 miliwn pellach ar gael i ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn, neu ar gyfer lleihau'r praesept neu ofyniad benthyca allanol.

3.6 Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith y senarios amrywiol a fodelwyd:

**Tabl 13: Effaith gwahanol senarios ariannu ar gynllun pedair blynedd**

| | 17/18 £Miliwn | 18/19 £Miliwn | 19/20 £Miliwn | 20/21 £Miliwn | Cyfanswm £Miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad o 1.4% mewn cyllid o'r naill flwyddyn i'r llall | 0 | -1.117 | -2.468 | -3.102 | -6.686 |
| Gostyngiad o 1.4% ynghyd â gostyngiad fformiwla o £3 miliwn yn 2018/19 | 0 | 1.883 | 0.490 | -0.185 | 2.188 |
| **Gostyngiad o 1.4% ynghyd â gostyngiad fformiwla o £5 miliwn dros 2 flynedd (cynllun tymor canolig)** | **0** | **1.383** | **2.497** | **1.794** | **5.674** |
| Gostyngiad o 1.4% ynghyd â gostyngiad fformiwla o £8 miliwn dros 3 blynedd | 0 | 1.550 | 2.828 | 4.797 | 9.165 |

3.7 Er bod canlyniad y modelu ariannol yn hysbys, ar hyn o bryd, mae'r Prif Gwnstabl yn gweithio ar fanylion y modelau gweithredu a fydd yn cael eu rhoi ar waith os digwydd y senarios amrywiol hyn. Byddai effaith colled o £8 miliwn yn arwain at ostyngiad o 16% mewn ariannu canolog, a byddai ganddo effaith sylweddol ar wasanaethau heddlu. Byddai'n rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn.

3.8 Mae'r CHTh a'r PG hefyd yn rhan o drafodaethau gyda heddluoedd eraill ar gydweithio a bydd y PG newydd yn dechrau gwneud rhai newidiadau i fodel gweithredu'r heddlu yn ystod 2017/18.

3.9 Bydd trafodaethau pellach ynglŷn â'r dyfodol yn cael eu cynnal yn ystod 2017/18 er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i wella ei effeithlonrwydd, ac ar yr un pryd, yn cyflwyno gwasanaethau plismona effeithiol i'r cyhoedd.

## Tabl 14: Model Ariannol Lefel Uwch ar gyfer 2016/17 i 2020/21

| | Gwaelodlin | Tybiaethau | | | | Cyllid Rhagamcanol Sydd Ar Gael | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau Canolog** | | DRAFFT | AMC | AMC | AMC | | | | |
| Pennu Setliad Craidd yr Heddlu | -28,117 | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -27,724 | -27,336 | -26,953 | -26,576 |
| Cyllid Llawr | -9,000 | -1.4% | -29.6% | -41.4% | -1.4% | -8,874 | -6,250 | -3,663 | -3,611 |
| Grant Cymorth Refeniw | -4,618 | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -4,554 | -4,490 | -4,427 | -4,365 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaetho | -8,277 | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -1.4% | -8,161 | -8,047 | -7,934 | -7,823 |
| | **-50,012** | | | | | **-49,313** | **-46,123** | **-42,978** | **-42,375** |
| | -0.6% | | | | | -1.4% | -6.5% | -6.8% | -1.4% |
| Praesept Treth Gyngor | | | | | | | | | |
| Sylfaen | 216,574 | 2.13% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 221,176 | 222,724 | 224,283 | 225,853 |
| Cyfradd ar Fand D | 200.07 | 6.90% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 213.87 | 224.56 | 235.79 | 247.58 |
| **Praesept Rhagamcanol** | **-43,330** | | | | | **-47,303** | **-50,015** | **-52,884** | **-55,917** |
| **Cyfanswm Cyllid** | **-93,342** | | | | | **-96,616** | **-96,138** | **-95,861** | **-98,292** |
| | | | | | | 3.5% | -0.5% | -0.3% | 2.5% |
| *% a ariannwyd gan y Dreth Gyngor* | 46% | | | | | 49% | 52% | 55% | 57% |

| | Sylfaen Drethu ar Fand D | | | Casgliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen Drethu** | **2016/17** | **2017/18** | **Newid** | **2016/17** | **2017/18** | **Newid** |
| Sir Gaerfyrddin | 70,929 | 71,599 | 0.94% | 97.50% | 97.50% | 0.00% |
| Ceredigion | 30,661 | 31,894 | 4.02% | 96.50% | 98.50% | 2.00% |
| Sir Benfro | 53,798 | 55,920 | 3.94% | 97.75% | 98.00% | 0.25% |
| Powys | 61,186 | 61,764 | 0.95% | 98.50% | 98.50% | 0.00% |

## Tabl 15: Cyfrif Refeniw ar gyfer 2016/17 i 20/21

| | Cyllideb Terfynol | Cyllideb Arfaethedig | Rhagolwg Ariannol | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllideb ar gyfer SCHTh a Chomisiynu** | | | | | |
| Costau Staff | 642 | 695 | 702 | 709 | 720 |
| Costau Rhedeg SCHTh | 336 | 336 | 339 | 342 | 346 |
| Prosiectau Cymunedol ac Ymchwil | 0 | 153 | 155 | 156 | 158 |
| Cyllideb Comisiynu | 979 | 793 | 807 | 821 | 836 |
| **Cyfanswm Costau SCHTh** | **1,957** | **1,977** | **2,003** | **2,028** | **2,060** |
| **Cyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl a Staff o dan Gyfarwyddyd a Rheolaeth y Prif Gwnstabl** | | | | | |
| **Gweithwyr** | | | | | |
| Swyddogion Heddlu | 51,804 | 52,681 | 52,857 | 53,080 | 53,759 |
| Staff Heddlu | 19,806 | 21,014 | 21,012 | 20,970 | 21,149 |
| SCCH | 4,831 | 4,971 | 5,020 | 5,071 | 5,151 |
| Pensiynau'r Heddlu (net) | 11,790 | 11,903 | 12,016 | 12,131 | 12,308 |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 747 | 754 | 762 | 769 | 777 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | **88,979** | **91,323** | **91,668** | **92,021** | **93,144** |
| **Costau Rhedeg** | | | | | |
| Costau Adeiladau | 3,417 | 3,451 | 3,334 | 3,266 | 3,249 |
| Costau Trafnidiaeth | 2,225 | 2,247 | 2,270 | 2,293 | 2,316 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 9,794 | 9,512 | 9,455 | 9,398 | 9,341 |
| Gwasanaethau Wedi'u Contractio ac Asiantaethau | 2,413 | 2,235 | 2,005 | 1,873 | 1,892 |
| **Cyfanswm Costau Rhedeg** | **17,849** | **17,445** | **17,064** | **16,831** | **16,797** |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 467 | 467 | 665 | 881 | 1,077 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **107,295** | **109,235** | **109,397** | **109,733** | **111,018** |
| **Ariannwyd Gan:** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Grantiau Penodol | -7,265 | -7,265 | -7,265 | -7,265 | -7,266 |
| Incwm Arall | -5,593 | -5,379 | -5,524 | -5,670 | -5,726 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-12,858** | **-12,644** | **-12,789** | **-12,935** | **-12,992** |
| **Cyfraniad o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | | | |
| Defnydd o / Cyfraniad at Gronfeydd Wrth Gefn | -3,052 | -1,952 | -1,090 | -468 | 0 |
| | -3,052 | -1,952 | -1,090 | -468 | 0 |
| **Costau Net - Yr Heddlu** | **91,384** | **94,639** | **95,518** | **96,329** | **98,026** |
| **Cyfanswm Costau ar gyfer SCHTh a'r Heddlu** | **93,342** | **96,616** | **97,521** | **98,358** | **100,086** |
| **Cost Net Plismona i'w Ariannu Drwy Grantiau a Phraeseptau** | **93,342** | **96,616** | **97,521** | **98,358** | **100,086** |
| | 0 | -0 | 0 | 0 | -0 |
| **Grantiau a Phraeseptau** | | | | | |
| Grant yr Heddlu (-1.4%) | -28,117 | -27,724 | -27,336 | -26,953 | -26,575 |
| Cyllid Llawr (-1.4% + fformiwla -£5 miliwn) | -9,000 | -8,874 | -6,250 | -3,663 | -3,611 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (-1.4%) | -8,277 | -8,161 | -8,047 | -7,934 | -7,823 |
| Grant Cymorth Refeniw (-1.4%) | -4,618 | -4,554 | -4,490 | -4,427 | -4,365 |
| **Cyfanswm Cymorth Allanol** | **-50,012** | **-49,313** | **-46,122** | **-42,977** | **-42,375** |
| Praeseptau ar Awdurdodau Bilio | -43,330 | -47,303 | -50,015 | -52,884 | -55,917 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU** | **-93,342** | **-96,616** | **-96,137** | **-95,861** | **-98,292** |
| Gwahaniaeth (Diffyg / Arbedion Heb Eu Nodi) | -0 | 0 | 1,383 | 2,497 | 1,794 |
| **Sylfaen Drethu** | 216,574 | 221,177 | 222,725 | 224,284 | 225,854 |
| **LEFEL TRETH GYNGOR** | £ 200.07 | £ 213.87 | £ 224.56 | £ 235.79 | £ 247.58 |
| Cynnydd o ran y Dreth Gyngor | 0.00% | 6.9% | 5.0% | 5.0% | 5.0% |

## Atodiad B
## Llythyr gan y Panel Heddlu a Throseddu

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL**

Cyng. Alun Lloyd-Jones Cadeirydd
Panel Heddlu A Throseddu Dyfed-Powys
D/O Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gar, SA31 1JP.

Cllr. Alun Lloyd-Jones Chair
Dyfed Powys Police and Crime Panel
C/O Chief Executive's Department
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP

Dyddiad /Date: 31st January 2017

Mr D. Llywelyn,
Police and Crime Commissioner,
Dyfed-Powys Police,
Police Headquaters,
Llangunnor,
Carmarthen.

Dear Commissioner,

Re: Police Precept for 2017/2018

I write further to your attendance before the Police and Crime Panel on Friday 27th January in respect of the above matter.

In accordance with the requirements of Schedule 5 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011, please accept this letter as the formal report of the Panel in respect of your proposed precept.

As you are aware, although Panel members had some misgivings about the size of the proposed increase in the Precept, the majority accepted your explanation that such an increase was necessary to ensure an efficient and effective police force for the people of Dyfed-Powys.

As such the Panel, by a majority of 10 to 3, approved the Precept as proposed.

I would like to thank you and your officers for the detailed report presented to the Panel and the background information provided at the Finance and Demand Summit last year. This made it much easier for the Panel to understand the financial issues affecting the Force and your rationale for the proposed precept.

Yours sincerely

pp. R Hodgeman

Alun Lloyd-Jones

## Deddf Llywodraeth Leol 2003 – Datganiad "Adran 25" y Prif Swyddog Ariannol

Mae'n ofynnol yn ôl Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Ariannol pan mae'n ystyried ei gyllideb a'r praesept treth gyngor. Adroddiad yw'r canlynol ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn y caniateir ar eu cyfer yn y cynigion cyllideb, fel y bydd gan y CHTh gyngor awdurdodol pan mae'n gosod y gyllideb a'r praesept treth gyngor.

Mae'r CHTh yn penderfynu pob blwyddyn faint mae'n mynd i godi o'r dreth gyngor. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar gyllideb sy'n gosod amcangyfrifon o'r gwariant a gynllunnir. Oherwydd mae'r penderfyniad ar dreth gyngor yn cael ei wneud cyn bod y flwyddyn yn cychwyn, ac ni ellir ei godi yn ystod y flwyddyn, rhaid ystyried y peryglon a'r ansicrwydd a allai orfodi gwario mwy ar y gwasanaeth na'r hyn a drefnwyd. Caniateir ar gyfer y risgiau hyn drwy:

- gwneud lwfans doeth yn yr amcangyfrifon ar gyfer pob un o'r gwasanaethau; a
- sicrhau bod digon o gronfeydd wrth gefn i dynnu arnynt os nad yw'r amcangyfrifon yn ddigonol.

Cynhaliodd y CHTh seminar gydag aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru ar 7 Rhagfyr 2016. Roedd gan yr Heddlu gyfle i gyflwyno'r heriau gweithredol maen nhw'n wynebu a thrafododd y CHTh yr heriau ariannol fel y mae'n eu gweld a thrafododd y lefelau praesept posibl ar gyfer 2017/18.

Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddyraniadau grant heddlu dros dro ar gyfer 2017/18 a ddilynwyd ar yr un diwrnod gan ddyraniadau Grant Cymorth Refeniw a Chyfraddau Cenedlaethol Annomestig gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd y setliad drafft at ostyngiad yng nghyllid craidd y llywodraeth o 1.4% mewn termau ariannol.

Gydag adolygiad arall o'r fformiwla sy'n pennu cyllid ar draws gwasanaethau heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae dal ansicrwydd sylweddol o ran yr incwm canolog y gall y CHTh ddisgwyl y tu hwnt i 2017/18.

Serch hyn, crynhowyd cyllideb ar gyfer 2017/18 a chyllidebau dangosol ar gyfer 2018/19 i 2020/21 gan ystyried chwyddiant ac ymrwymiadau hysbys. Mae'r CHTh hefyd wedi ystyried ymatebion a dderbyniwyd gan yr ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi mabwysiadu ymagwedd doeth – rhagdybio gostyngiad posibl o £5 miliwn i ariannu canolog dros 2018/19 a 2019/20 wrth grynhoi'r cyllidebau hyn.

O bryder arbennig y mae'r gostyngiad yn y grant cyfalaf a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref. Bydd £318,000 yn cael ei dderbyn ar gyfer 2017/18 a fydd yn fach o ystyried y gwariant cyfalaf a drefnwyd ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Bydd y rhaglen flynyddol yn rhedeg ar oddeutu £7.5 miliwn y flwyddyn tan 2020/21 cyn gostwng i gyfartaledd o tua £3.5 miliwn y flwyddyn wedi hynny. Er bod y CHTh yn dal cronfeydd sylweddol wrth gefn, bydd y rhain (ar wahân i gronfa wrth gefn gyffredinol a chronfa cymharol fach wrth gefn) wedi'u defnyddio erbyn diwedd 2019/20. Yn ogystal, cynllunnir benthyca allanol o 2018/19 ar lefel o tua £3 y flwyddyn.

Gan hynny, bwriad y CHTh yw ail ymweld â'r rhaglen gyfalaf yn fanylach gyda'r Prif Gwnstabl newydd yn ystod 2017/18 er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu blaenoriaethu a'u rheoli'n briodol i wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael a lleihau'r angen ar gyfer benthyca'n allanol lle bo hynny'n bosibl. Rwy'n llawn gefnogi'r ymagwedd hon ac rwy'n ei ystyried yn hollbwysig ail ymweld â'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau bod holl gynlluniau'r dyfodol yn fforddiadwy a chynaliadwy.

Roedd y CHTh, wrth osod y praesept, yn ystyriol o'r lefel cyllid a geisir gan y Prif Gwnstabl yn ogystal â'r capio posibl o ran cynnydd praesept eithafol.

Cyflwynodd y CHTh y praesept arfaethedig i'r Panel Heddlu a Throseddu ar 27 Ionawr 2017. Rhoddodd y CHTh fanylion llawn am ei gynnig i gynnydd o 6.9% o ran y praesept treth gyngor. Esboniodd mai ei fwriad oedd i'r cynnydd o ran y praesept yn y dyfodol fod o gwmpas 5% y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Yn y cyfarfod hwn, pleidleisiodd y Panel Heddlu a throseddu dros gymeradwyo cynnig y CHTh ar gyfer cynnydd yn y praesept treth gyngor o 6.9% ar gyfer 2017/18.

Ar 1 Chwefror 2017, cafodd y CHTh wybod y setliad heddlu terfynol ar gyfer 2017/18. Nid yw'r setliad terfynol wedi newid o'r setliad dros dro.

Yn y cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2017, hysbyswyd aelodau o'r panel bod y balans Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn wedi'i gynnal ar £4.5 miliwn. Mae'r balans hwn yn cyfateb i 4.8% o'r gyllideb refeniw net fel y diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Awgrymir cadw'r balans ar y lefel hon o ystyried y gostyngiadau cyllidebol a ragwelir yn ystod y pedair blwyddyn ariannol nesaf.

Fel Prif Swyddog Ariannol, rwy'n fodlon y bu proses gyllideb gadarn a bod lwfans dyledus wedi'i roi mewn perthynas â'r materion a nodir uchod. Yn fy marn i, nid oes unrhyw esgeulustod mawr i dynnu sylw'r CHTh ato ac rwy'n credu bod fy nyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn awr wedi'u rhyddhau.

***Jayne Woods***

***Prif Swyddog Ariannol***

***14 Chwefror 2017***